Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

don't get caught out

Buying and selling wild salmon and sea trout – the law

Protecting wild salmon and sea trout

Wild salmon and sea trout are at risk. To increase the number of these fish in our rivers and protect the future of net fishing and angling, only farmed salmon and sea trout, and those wild fish caught in legal net and trap fisheries can be bought and sold in England and Wales.

It is against the law to buy and sell fish that have been caught illegally.

It is also against the law to sell or offer to sell salmon or sea trout caught by rod and line.

Please ring the
Environment Agency Incident Hotline
0800 80 70 60
(Free-phone 24 hour)

Buyers beware

If you buy or sell wild salmon or sea trout, remember it is against the law to:

- sell, offer to sell or barter in salmon or sea trout caught by rod and line
- handle salmon or sea trout which you suspect have been caught illegally
- handle salmon or sea trout which you suspect have been taken during the close season.
    - different parts of England and Wales have different close seasons, although no salmon net fishery can open until 1 June. For full details of the close season where you are, visit the byelaw pages on our website **www.environment-agency.gov.uk/fish**
- handle salmon or sea trout at any time of year that are 'unclean' (see over for information).

These offences apply to whole fish and portions of fish.

Remember
If convicted of these offences, you could face a heavy fine.

Please note, none of these offences apply to farmed salmon and sea trout.

Staying within the law

You could receive a substantial fine if you handle salmon or sea trout that have been caught or sold illegally. But, it is easy to find out which fish have been caught by legal net fisheries and can be bought and sold legally.

All salmon and sea trout caught by a legal net or trap in England and Wales must have an Environment Agency carcass tag attached through their mouth and gills. These must remain attached until the fish are processed.

Rod-caught and illegally caught fish will not have an Environment Agency carcass tag attached.

Also, illegally caught fish may have –

- spear or gaff wounds
- snare or gill net marks

You may still trade in farmed and imported net-caught fish, but these will not possess an Environment Agency carcass tag.

If you want further proof of where fish have come from, especially if they are imported, you should ask the seller for a signed receipt that shows:

- the seller's name and address
- how many fish were sold and their tag identification numbers
- how the fish were caught
- when and where they were caught
- name and licence number of the person that caught the fish.

For further information, you can download our fisheries byelaws from our website at **www.environment-agency.gov.uk/fish.**

What are 'unclean' fish?

An 'unclean' fish is one that is about to spawn, is spawning or has recently spawned and has not yet recovered. These fish can be a dark colour with red spots on their gill covers. Their fins may be ragged, and eggs or milt (a white milky substance) may run from the vent. Unclean fish are not good to eat.

You will be breaking the law if you buy or sell unclean fish.

Protect your trade

If you are offered wild salmon or sea trout you suspect have been rod caught, illegally caught or are unclean, please let us know. We will treat all information in strict confidence. Please ring the Environment Agency Incident Hotline – 0800 80 70 60 (Free-phone 24 hour)

Please ring the
Environment Agency Incident Hotline
0800 80 70 60
(Free-phone 24 hour)

Would you like to find out more about us, or about your environment?

Then call us on
08708 506 506* (Mon-Fri 8-6)

email
enquiries@environment-agency.gov.uk

or visit our website
www.environment-agency.wales.gov.uk

incident hotline 0800 80 70 60 (24hrs)
floodline 0845 988 1188

*** Approximate call costs: 8p plus 6p per minute (standard landline). Please note charges will vary across telephone providers.**

Environment first: This publication is printed on paper made from 100 per cent previously used waste. By-products from making the pulp and paper are used for composting and fertiliser, for making cement and for generating energy.

GEHO0609BQBE-B-P



Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

peidiwch â chael eich dal

Prynu a gwerthu eogiaid gwyllt a sewin – y gyfraith

Amddiffyn eogiaid gwyllt a sewin

Mae eogiaid gwyllt a sewin mewn perygl. I gynyddu'r nifer o'r pysgod hyn yn ein hafonydd ac i amddiffyn dyfodol pysgota â rhwydi a physgota â gwialen, dim ond eogiaid a sewin sydd wedi'u ffermio, a'r pysgod gwyllt hynny sydd wedi eu dal mewn pysgodfeydd rhwydi a maglau cyfreithlon, y gellir eu prynu a'u gwerthu yn Lloegr a Chymru.

Mae hi'n groes i'r gyfraith i brynu a gwerthu pysgod sydd wedi'u dal yn anghyfreithlon.

Mae hi'n drosedd hefyd i werthu neu gynnig gwerthu eogiaid neu sewin a ddaliwyd gyda gwialen a llinell.

Ffoniwch
Llinell Argyfwng Asiantaeth yr Amgylchedd
0800 80 70 60
(Ffôn 24 awr rhad ac am ddim)

Gofalwch chi brynwyr

Os ydych yn prynu neu werthu eogiaid gwyllt neu sewin, cofiwch ei bod hi'n groes i'r gyfraith i:

- werthu, cynnig gwerthu neu ffeirio eogiaid neu sewin a ddaliwyd gyda gwialen a llinell.
- drafod eogiaid neu sewin y tybiwch iddynt gael eu dal yn anghyfreithlon.
- drafod eogiaid neu sewin y tybiwch iddynt gael eu cymryd yn ystod y tymor gwaharddedig.
    - mae gan rannau gwahanol o Loegr a Chymru dymhorau gwaharddedig gwahanol, er na all unrhyw bysgodfa rhwydi eogiaid agor hyd 1 Mehefin. Am fanylion llawn am y tymhorau gwaharddedig lle'r ydych chi, ymwelwch â thudalennau'r is-ddeddfau ar ein gwefan **www.environment-agency.gov.uk/fish**
- drafod eogiaid neu sewin 'amhur' ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (gweler y wybodaeth drosodd).

Mae'r troseddau hyn yn berthnasol i bysgod cyfan a rhannau o bysgod.

Cofiwch
Os y dyfernir chi'n euog o'r troseddau hyn, gallech wynebu dirwy drom.

Noder os gwelwch yn dda, nid yw'r troseddau hyn yn berthnasol i eogiaid a sewin sydd wedi'u ffermio.

Cadw o fewn y gyfraith

Gallech dderbyn dirwy sylweddol pe baech yn trafod eogiaid neu sewin sydd wedi'u dal neu eu gwerthu'n anghyfreithlon. Ond, mae'n hawdd canfod pa bysgod sydd wedi'u dal gan bysgodfeydd rhwydi cyfreithlon a pha rai y gellir eu prynu a'u gwerthu'n gyfreithiol.

Rhaid i bob eog a sewin a ddaliwyd gan rwyd neu fagl gyfreithlon yn Lloegr a Chymru gael tag carcas Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'u hatodi drwy eu cegau a'u hesgyll. Rhaid i'r rhain aros ynghlwm hyd nes bod y pysgod wedi'u prosesu.

Ni fydd gan bysgod sydd wedi'u dal gyda gwialen neu rai sydd wedi'u dal yn anghyfreithlon dag carcas Asiantaeth yr Amgylchedd ynghlwm wrthynt.

Hefyd, gall fod gan bysgod a ddaliwyd yn anghyfreithlon –

- glwyfau picell neu fachau
- farciau magl neu rwyd ddrysu

Gellwch barhau i fasnachu pysgod wedi'u ffermio a physgod a ddaliwyd gan rwydi sydd wedi'u mewnforio, ond ni fydd gan y rhain dag carcas Asiantaeth yr Amgylchedd.

Os oes angen prawf pellach arnoch o le y daeth y pysgod, yn enwedig os ydynt wedi'u mewnforio, dylech ofyn i'r gwerthwr am dderbynneb wedi'i harwyddo sy'n dangos:

- enw a chyfeiriad y gwerthwr
- faint o bysgod a werthwyd a rhifau adnabod y tagiau
- sut y daliwyd y pysgod
- pryd ac ymhle y daliwyd y pysgod
- enw a rhif trwydded y person a ddaliodd y pysgod.

Am fanylion pellach, gellwch lwytho ein his-ddeddfau pysgodfeydd i lawr o'n gwefan yn **www.environment-agency.gov.uk/fish.**

Beth yw pysgod 'amhur'?

Pysgodyn sydd ar fin silio, sydd yn silio neu sydd wedi silio'n ddiweddar ond nad ydyw wedi'i adfer ydy pysgodyn 'amhur'. Gall y pysgod hyn fod yn dywyll eu lliw gyda smotiau cochion ar gloriau eu tegyll. Efallai y bydd eu hesgyll yn fylchog, a gall fod wyau neu sberm pysgod (sylwedd gwyn llaethog) yn rhedeg o'r awyrell. Ni ddylid bwyta pysgod amhur.

Byddech yn torri'r gyfraith pe baech yn prynu neu werthu pysgod amhur.

Amddiffynnwch eich masnach

Os ydych yn cael cynnig eogiaid gwyllt neu sewin yr ydych yn amau eu bod wedi'u dal gyda gwialen, yn anghyfreithlon neu eu bod yn amhur, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda. Byddwn yn ymdrin â phob gwybodaeth yn gwbl gyfrinachol. Ffoniwch Llinell Argyfwng Asiantaeth yr Amgylchedd – 0800 80 70 60 (Ffôn 24 awr rhad ac am ddim)

Ffoniwch
Llinell Argyfwng Asiantaeth yr Amgylchedd
0800 80 70 60
(Ffôn 24 awr rhad ac am ddim)

Hoffech chi ganfod mwy amdanom ni, neu am eich amgylchedd?

Yna galwch ni ar
08708 506 506* (Llun-Gwe 8-6)

e-bost
enquiries@environment-agency.gov.uk

neu ymwelwch â'n gwefan
www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk

llinell argyfwng **0800 80 70 60** (24awr)
llinell llifogydd **0845 988 1188**

*** Cost galwadau: tua 8c wedyn 6c y funud (o linell ddaearol). Gall pris galwadau gan ddarparwyr llinellau ffon eraill amrywio.**

Yr amgylchedd yn gyntaf: Argreffir yr adroddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, gwneud sment a chynhyrchu trydan.

GEHO0609BQBE-B-P